

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2024

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWDYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2024 AM 10:00

Presennol

Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

F D Bletsoe

RM Granville

M Jones

AJ Williams

Yn bresennol yn rhithiol

H T Bennett  
T Thomas

S J Griffiths  
G Walter

M L Hughes

RL Penhale-Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies

Janine Nightingale

Swyddogion:

Rachel Keepins  
Meryl Lawrence  
Stephen Griffiths

Rheolwr Gwasanaethau Democraidaidd  
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd – Craffu  
Swyddog Craffu Dros Dro / Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd - Pwyllgorau

Gwahoddedigion

Cynghorydd Huw David  
Cynghorydd Jane Gebbie  
Cynghorydd Hywel Williams  
Cynghorydd John Spanswick  
Cynghorydd Neelo Farr  
Cynghorydd Rhys Goode  
Cynghorydd Jon-Paul Blundell

Arweinydd  
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd  
Aelod Cabinet Adnoddau  
Aelod Cabinet Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd  
Aelod Cabinet Diogelu a Llesiant  
Aelod Cabinet Tai, Cynllunio ac Adfywio  
Aelod Cabinet Addysg

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2024**

Mark Shephard  
Carys Lord  
Claire Marchant  
Lindsay Harvey  
Kelly Watson

Prif Weithredwr  
Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid  
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant  
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth Teuluol  
Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio

Alex Rawlin  
Kate Pask

Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus  
Swyddog Gwella Corfforaethol – Perfformiad

Deborah Exton  
Nigel Smith

Dirprwy Bennaeth Cyllid  
Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd

**Swyddogion:**

Rachel Keepins  
Meryl Lawrence  
Stephen Griffiths

Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd  
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu  
Swyddog Craffu Dros Dro / Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

**Datganiadau o Fuddiant**

Dim

**103. Proses Ymgynghori ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i  
2027-28 a'r Broses Ymgynghori ar y Gyllideb Ddrafft**

Penderfyniad	<p>Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r adroddiad a'i atodiadau gydag Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno'r Argymhellion yn Atodiadau A a B i'r Cabinet ar 6 Chwefror 2024 fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb, yn ddibynnol ar yr ychwanegiadau a'r diwygiadau canlynol:</p> <p><b>Adolygiad o Broses y Gyllideb</b></p> <p>O ystyried amrywiaeth o bryderon a fynegwyd am broses y Gyllideb yn gyffredinol, ac yn enwedig diben y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb at y dyfodol, roedd y Pwyllgor yn cefnogi argymhelliad Pwyllgor Craffu Testun 3 y dylid cynnal adolygiad llawn. Fel rhan o hyn, gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd ystyried dechrau'r broses Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP) yn llawer cynharach yn ystod y</p>
--------------	---

flwyddyn, gyda fframwaith ar gyfer proses barhaus drwy gydol y flwyddyn, lle rhoddir ymatebion prydlon i geisiadau am wybodaeth i BREP yn ogystal â'r llyfr cyllideb a rennir yn uniongyrchol gydag Aelodau. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a fyddai modd i'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb bwysleisio a chanolbwyntio mwy ar ymgynghoriad yr Awdurdod Lleol gyda'r cyhoedd ac i dderbyn mwy o adborth o ganlyniad i sgysiau ehangach gyda phreswylwyr.

**(Wedi'i addasu o ran o argymhelliad gwreiddiol rhif 4 y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol)**

Mewn perthynas ag unrhyw adolygiad o'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb ac addasiad posibl i Gylch Gorchwyl y Panel, nododd y Pwyllgor yr ymateb gan y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol, sef er bod y Panel yn eithaf unigryw i Ben-y-bont, nid yw mor syml â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn penderfynu ar yr hyn y gall y panel ei wneud, a bod angen ystyried proses ac opsiynau eraill i weld a fyddai'n fwy ymarferol, ond byddai angen mynd i ffwrdd a datblygu cynigion i'w cyflwyno i'r corff perthnasol er mwyn gwneud penderfyniad.

**Rhaglen Gyfalaf**

**(Wedi'i addasu o ran o argymhelliad gwreiddiol rhif 4 y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol)**

Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, gydag adolygiad o'r Rhaglen Gyfalaf i gael ei ystyried gan y Cyngor ar ddechrau 2024, amlygodd y Pwyllgor pe na fyddai nifer o'r cynigion cyllidebol a nodir yn goch yn cael eu gwireddu, ac o ystyried goblygiadau o ran y Rhaglen Gyfalaf, mae'n bosibl y bydd angen oedi ac ail-edrych ar wariant Cyfalaf. Gofynnodd y Pwyllgor felly i'r Rhaglen Gyfalaf gael ei hystyried fel rhan o broses y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb ar gyfer 2024/25 er mwyn ystyried a chraffu mewn digon o fanylder.

**Cyllid gan Lywodraeth Cymru**

Cyfeiriodd aelodau at drafodaethau amrywiol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan yr holl Bwyllgorau Craffu a thystiolaeth a ddarparwyd gan Aelodau'r Cabinet a Swyddogion lle codwyd pryderon difrifol ynghylch capasiti'r Cyngor i gyflawni deddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru heb sicrwydd o gyllid digonol. Roedd y Pwyllgor felly yn argymhell nid yn unig bod y Pwyllgor Craffu yn ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid ynglŷn â hyn, ond hefyd, argymhellwyd y dylai'r Cabinet wneud yr un fath i lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drwy CLIC, i bwysleisio ei fod yn gwbl anghynnaladwy i Awdurdodau arfer eu dyletswyddau statudol yn ogystal â gweithredu newidiadau deddfwriaethol heb yr adnoddau ariannol, a'r adnoddau dynol i gyflawni eu nodau polisi.

Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd bwysleisio'r pwynt a wnaed gan Bwyllgor Craffu Pwnc 2 mewn perthynas â'u pryderon ynghylch yr ansefydlogrwydd a achosir gan ddibyniaeth ar gyllid grant tymor byr, yn ogystal â sylwadau Pwyllgor Craffu Pwnc 1 ynghylch yr angen am eglurhad cynharach am unrhyw ddyraniad cyllideb allanol neu ganolog. Yn ychwanegol at hynny, nododd y Pwyllgor bod angen lobïo Llywodraeth Cymru i gael setliad ariannol aml-flwyddyn fel bod modd cynllunio'r gyllideb ar gyfer tymor hwy mewn

modd mwy gwybodus.

**Diwygiad i Argymhelliad gwreiddiol rhif 5 y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol**

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â gostyngiad yn niferoedd staff ar draws nifer o brif wasanaethau swyddfa gefn y Cyngor, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnal asesiad ansoddol o effaith gronnus a thymor hwy'r gostyngiadau hyn ar yr Awdurdod Lleol. Gan gydnabod y byddai asesiad llawn yn cymryd amser ac y byddai'n digwydd ar ôl i setliad y gyllideb ar gyfer 2024/2025 gael ei gytuno, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet ddangos tystiolaeth o'r modd y maent wedi ystyried y rhyng-gysylltedd rhwng gostyngiadau yn y gyllideb a'r effaith bosibl ar sicrhau'r arbedion yn y gyllideb. Yn ogystal â'r enghraifft a roddir uchod yn ymwneud ag effaith gostyngiad yn niferoedd staff ym mhrif wasanaethau swyddfa gefn y Cyngor, ceir hefyd enghreifftiau pellach megis effaith toriadau i ysgolion a gwasanaethau cymorth addysgol ar blant a phobl ifanc bregus, gan arwain, o bosibl, at bwysau cynyddol ar wasanaethau cymdeithasol.

Yn gysylltiedig â hyn, mynegodd y Cyngor bryder ynghylch cadernid cyffredinol y gyllideb, o ystyried y sylwadau uchod ynglŷn â rhyng-gysylltedd toriadau i'r gyllideb a'r effaith negyddol posibl ar wasanaethau eraill, yn ogystal â nifer y cynigion ar gyfer gostyngiadau a nodwyd yn goch o ran risg o allu eu cyflawni. Yn ychwanegol at hyn, rhagwelir y bydd 80% o ysgolion yn cyrraedd sefyllfa o ddiffyg cyllideb pe byddai'r gostyngiad o 5% yng nghyllideb ddirprwyedig ysgolion yn mynd yn ei flaen ar gyfer 2024/25. Er bod cydnabyddiaeth y byddai ysgolion yn gweithredu cynlluniau adfer o ganlyniad i ddiffyg, nododd Aelodau bod risg byddai'r cyfrifoldeb, gan gynnwys ymyrraeth/rheolaeth bosibl o ysgolion o'r fath, yn disgyn ar yr Awdurdod Lleol pe na fyddai'r cynlluniau hyn yn llwyddiannus ar ôl tair neu hyd yn oed bum mlynedd (pe byddent yn cael eu hymestyn). Mae hyn ar wahân i unrhyw gefnogaeth ychwanegol ac ymyrraeth bosibl gan yr Awdurdod yn ystod cyfnod y cynllun adfer. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ynghylch sut yr oedd yr agweddau hyn wedi cael eu hasesu er mwyn sicrhau cadernid y gyllideb a gyflwynwyd, ar gyfer 2024-25 yn ogystal â'r tymor hwy, i sicrhau na fyddai'r arbedion hyn yn arwain at alw a chostau cynyddol yn nes ymlaen.

**Newid Trawsffurfiol**

Yn ogystal ag edrych ar Awdurdodau Lleol eraill ar gyfer ffyrdd newydd o weithio ac arfer da, gan ystyried y gwaith arloesol sydd wedi bod yn mynd rhagddo o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, megis edrych ar wahanol ffyrdd o weithio, adolygu ac ail-ddylunio gwasanaethau a chreu atebion creadigol i broblemau staffio, roedd y Pwyllgor yn argymhell y dylid rhannu'r rhain ar draws pob Cyfarwyddiaeth fel rhan o ffocws yr Awdurdod ar newid trawsffurfiol.

### **Blaenoriaethau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol**

O ystyried y dystiolaeth a roddwyd gan Brifathrawon yn ystod cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 1 ynglŷn ag effaith toriad o 5% i gyllideb ddirprwyedig ysgolion, gyda rhai'n nodi ei fod yn 'arswydus', barn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol oedd: pe byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Ganolog y DU ar gyfer pensiynau athrawon, dylid rhoi blaenoriaeth i leihau'r toriadau arfaethedig i gyllidebau dirprwyedig ysgolion, gan ystyried argymhelliad Pwyllgor Craffu Testun 1 ar hyn, yn ogystal â lleihau'r cynnydd arfaethedig i'r dreth gyngor.

Argymhellwyd gan y Pwyllgor, pe na fyddai cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth Ganolog yn ddigon i adolygu'r gostyngiadau cyllidebol hyn, ac o bosibl i gyllidebau eraill a gynigiwyd gan Aelodau Craffu, y dylid cynnal astudiaeth cost a budd i ystyried pa wasanaethau y mae'r Awdurdod dan rwymedigaeth statudol i'w darparu, a pha rai sy'n cael eu darparu y tu hwnt a thros ben drwy wasanaethau dewisol, gan gydnabod bod rhai gwasanaethau'n chwarae rôl ataliol o ran lleihau'r angen am ymyrraeth statudol.

### **Creu incwm**

Argymhellodd y Pwyllgor bod angen ystyried pob cyfle posibl i sicrhau bod cymaint o incwm â phosibl yn cael ei greu ar draws yr Awdurdod, o rannu gwasanaethau gydag eraill, edrych ar bartneriaid, y trydydd sector ac Awdurdodau Lleol, i fynd ati'n rhagweithiol i gynnig gwasanaethau'r Awdurdod pan fo potensial i greu incwm, er mwyn lliniaru effaith gostyngiadau i'r gyllideb at y dyfodol.

Argymhellodd y Cyngor y dylid blaenoriaethu adfer costau yn llawn lle bo modd, gydag enghreifftiau megis casglu eitemau gwastraff swmpus, Harbwr Porthcawl a thrwyddedau gwaith stryd. Yn ogystal, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol: lle bo'n briodol, drwy leihau cymorthdaliadau i wasanaethau ac ystyried cynhyrchu incwm masnachol ychwanegol, gellid defnyddio'r cyllid hwn i wrthbwysu rhai o gostau neu arbedion y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, sy'n wynebu'r cyhoedd ac yn cael eu hystyried gan y cyhoedd i fod yn fwyaf cysylltiedig â'u treth gyngor.

### **Gwasanaethau Cymdeithasol Cyffredinol**

Mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn â chostau cynyddol gofal cymdeithasol ar gyfer plant ac oedolion yn ogystal â'r costau cynyddol yn gysylltiedig â phlant â phrofiad o ofal mewn Awdurdodau eraill. Er bod y Gyfarwyddiaeth yn newid y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau, gan gefnogi sylwadau'r Prif Swyddog - Perfformiad Ariannol a Newid, roedd y Pwyllgor yn argymhell bod angen monitro trylwyr a gofalus i sicrhau nad yw sefyllfa'r gyllideb eleni yn cael ei ailadrodd gyda gorwariant sylweddol yn achosi pwysau cynyddol a goblygiadau ar gyfer cyllidebau ar draws y Cyngor.

### **EDFS5**

Roedd y Pwyllgor yn argymhell y dylid ailystyried cynigion megis cyfuno ysgolion yn EDF5 i bennu a fyddai modd dod â'r arbedion yma yn eu blaen a'u gwneud yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2024**

	<p><b><u>Ceisiadau Ychwanegol</u></b></p> <p>1. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag effaith gostyngiadau yn y gyllideb ac o ran adnoddau, gan gynnwys yr hyn sydd ar gael i Aelodau, gofynnodd y Pwyllgor i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd ystyried y newidiadau a gynigiwyd ar gyfer gwasanaethau cymorth i Aelodau a Phwyllgorau, megis mwy o gyfarfodydd rhithiol, nifer y cyfarfodydd, yn ogystal â'r adnoddau cyffredinol a ddarperir i Aelodau, er mwyn ceisio cynorthwyo i wneud yr arbedion hyn at y dyfodol a lleihau pwysau ar staff, yn enwedig mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd.</p> <p><b><u>Gwybodaeth Ychwanegol</u></b></p> <p>2. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o ran yr hyn y byddai'r £500 mil a nodwyd dan bwysau cyllidebol EFS4 yn ei gwmpasu gan fod amrywiaeth o ffigyrau wedi cael eu darparu mewn perthynas â hyn.</p>
Dyddiad y Penderfyniad	30 Ionawr 2024

**104. Monitro Cyllideb 2023-24 – Rhagolygon Refeniw Chwarter 3**

Penderfyniad	<p>Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad gydag Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:</p> <p><b>Sylwadau ac Argymhellion</b></p> <p>3. Cytunwyd y byddai eglurhad ynghylch y ffigurau ar gyfer nifer y plant â phrofiad o ofal mewn lleoliadau mewn sir arall yn ogystal â'r rhai mewn darpariaeth arall megis Heronsbridge yn cael ei ddarparu mewn unrhyw adroddiadau ar gyfer Craffu yn y dyfodol, gan gynnwys adroddiadau cyllideb.</p> <p>4. Bu aelodau'n cwestiynu'r tanwariant yng nghynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, sef bod y tanwariant wedi cynyddu ers y llynedd, a mynegwyd pryder bod y broses a'r meini prawf wedi dod yn fwy llym. Wrth ddarparu enghreifftiau personol o sut y gallai hynny fod yn berthnasol gan breswylwyr o fewn y fwrdeistref, roedd Aelodau yn <b>argymell</b> y dylid adolygu'r broses i bennu p'un a yw'r broses wedi mynd yn rhy lym, gan atal rhai pobl a ddylai fod yn gymwys o ystyried eu hamgylchiadau personol rhag cael mynediad at y cyllid hwn.</p>
--------------	--

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2024**

	<p><b>Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol</b></p> <p>5. Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ganlynol o ganlyniad i'w trafodaethau ynghylch cyllideb 2023/24:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>a. Y ffigur ar gyfer Cronfa wrth gefn y Cyngor;</li><li>b. Eglurhad ynghylch faint o blant mewn Awdurdod arall sy'n mynychu Ysgolion Heronsbridge ac Ysgol Bryn Castell a faint mae'r Awdurdod yn ei dderbyn am y lleoliadau hyn o'i gymharu â chostau anfon ein plant ein hunain allan o'r sir pan nad oes lleoedd ar gael o fewn y sir;</li><li>c. Eglurhad ynghylch y gorwariant o fewn y gwasanaethau Fflyd, a sicrhad bod unrhyw gostau'n ymwneud â thrydydd parti megis Heddlu De Cymru yn cael eu hadennill yn llawn.</li></ul>
Dyddiad y Penderfyniad	30 Ionawr 2024

**105. Adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol / Cynllun Cyflawni ar gyfer 2024/25**

Penderfyniad	<p>Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad gan Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:</p> <p>6. Cyfeiriodd Aelodau at y Porth Cynghorwyr ar gyfer Atgyfeiriadau gan Aelodau - gan fod Cynghorwyr yn ddefnyddwyr gwasanaeth yn y broses hon, gan eu bod yn codi atgyfeiriadau gan breswylwyr, gofynnwyd i ymgorffori cyfres o ddangosyddion perfformiad i ystyried ymatebion prydlon i'r ymholiadau hyn drwy'r porth. Roedd Aelodau hefyd yn annog y Prif Weithredwr i edrych ar ddefnyddio adnodd dadansoddol i ddarparu'r wybodaeth hon o fewn yr adnoddau sydd ar gael.</p> <p>7. Cytunodd y Pwyllgor bod dangosyddion perfformiad pendant â blaenoriaeth sydd angen eu cadw yn y cynllun cyflawni, megis y rhai sy'n gysylltiedig ag Ysgolion, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn ogystal ag unrhyw rai sy'n gysylltiedig â Digartrefedd. Fodd bynnag, cynigiodd Aelodau y dylai'r dangosyddion perfformiad a'r pwyntiau a awgrymwyd yn flaenorol gan y Pwyllgorau Craffu aros am y tro ac y dylid ailedrych ar hyn eto ym mis Mawrth 2024 i ystyried goblygiadau llawn y gostyngiadau cyllidebol a'r adnoddau sydd ar gael o ganlyniad i hyny.</p> <p><b>Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol</b></p>
--------------	---

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2024**

	8. Cyfeiriodd y Pwyllgor at yr Adolygiad gan Gymheiriaid ar Gyfathrebu a gynhaliwyd yn 2023 a gofynnwyd am gopi o'r adroddiad hwn.
Dyddiad y Penderfyniad	30 Ionawr 2024

**106. Strategaeth Gyfalaf 2024-25**

Penderfyniad	<p>Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r adroddiad a thrafodaeth gydag Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r argymhellion canlynol mewn perthynas â'r Strategaeth Gyfalaf:</p> <p>9. Mynegodd aelodau bryder ynglŷn â'r goblygiadau a'r risgiau anhysbys yn gysylltiedig â Marchnad Pen-y-bont gan gynnwys y goblygiadau ariannol posibl ar gyfer yr Awdurdod. Gofynnodd y Pwyllgor i hyn gael ei adlewyrchu rhywle o fewn y Strategaeth i amlygu'r cynlluniau posibl at y dyfodol a'r costau cysylltiedig.</p> <p>10. Amlygodd y Pwyllgor yr angen i fod yn realistig mewn perthynas â'r hyn sy'n bosibl i'r Awdurdod ei gyflawni, gan fynegi pryder ynghylch goblygiadau refeniw posibl y Strategaeth Gyfalaf at y dyfodol. Er ei fod yn cydnabod bod goblygiadau refeniw yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig gan yr Arweinydd i atgyfnerthu'r pwynt hwn o fewn y Strategaeth.</p> <p>11. Yn dilyn trafodaeth ynghylch asedau'r Cyngor a'r angen i'w hadolygu a'u gwaredu lle bo'n bosibl er mwyn rhyddhau rhywfaint o incwm, <b>argymhellodd</b> y Pwyllgor y dylid ystyried a allai Harbwr Porthcawl fod yn ased o'r fath a fyddai modd ei redeg yr un modd llwyddiannus yn breifat.</p> <p>12. Mewn perthynas â'r Bwrdd Rhaglenni Cyfalaf, <b>argymhellodd</b> y Pwyllgor y dylid cynnal adolygiad o'r Bwrdd a'i gynnwys o fewn y Strategaeth, i sicrhau ei fod yn cyflawni ei Gylch Gorchwyl, ac i ystyried agweddau megis amllder cyfarfodydd, aelodaeth a ph'un a oes unrhyw feysydd y dylai'r Bwrdd eu hystyried o gofio'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod.</p> <p>13. Er eu bod yn cydnabod y gallai cyllid grant fod ar gael i brynu'r arbenigedd gofynnol i mewn i reoli prosiectau Cyfalaf, roedd Aelodau'n mynegi pryder ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai adnoddau staff presennol gael eu symud i ymateb i ofynion y nifer o brosiectau Cyfalaf, gan eu tynnu oddi wrth waith dydd i ddydd y Cyngor. Cafwyd pryderon pellach ynglŷn â hyn o ystyried y problemau y mae'r Awdurdod eisoes wedi'u hwynebu o ran denu gweithwyr proffesiynol cymwys i swyddi rheoli prosiect</p>
--------------	--



**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2024**

	<p>o'r fath. Cynigiwyd y dylid monitro hyn yn ofalus gan gynnwys drwy Graffu yn ystod ystyriaethau o'r Rhaglen Gyfalaf yn y dyfodol.</p> <p><b>Gwybodaeth ychwanegol</b></p> <p>14. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pryd yn union y dechreuodd y cyfnod buddsoddi ar gyfer eiddo Buddsoddi'r Cyngor, a nodwyd gyda gwerth o £5,845 miliwn yn yr adroddiad, a hefyd a oes unrhyw enillion Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) mewn perthynas â'r buddsoddiad hwn.</p> <p>15. Mewn perthynas â'r model Buddsoddiad Cydfuddiannol ar gyfer datblygu ysgolion, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o ran lefel wirioneddol y costau refeniw y bydd yn rhaid i'r Awdurdod eu cyfrannu bob blwyddyn dros gyfnod y contract 25 mlynedd.</p>
Dyddiad y Penderfyniad	30 Ionawr 2024

**107. Eitemau Brys**

Penderfyniad	Dim
Dyddiad y Penderfyniad	30 Ionawr 2024

I arsylwi trafodaethau pellach a gafwyd am yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen hon](#).

Daeth y cyfarfod i ben am 15:09.